Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe

13 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.agic.org.uk



ISBN Digidol978-1-4734-3905-4


© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Methodoleg .......... 2
3. Cyd-destun .......... 4
4. Crynodeb .......... 5
5. Canfyddiadau .......... 6
   Profiad y Claf .......... 6
   Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .......... 8
   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12
   Ansawdd yr Amgylchedd .......... 14
6. Y Camau Nesaf .......... 16
   Atodiad A .......... 17

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Cwmtawe, 36 Stryd Fawr, Clydach, Abertawe, SA6 5LG, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 13 Mai 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Nod arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yw darganfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r Safonau Iechyd Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe yn darparu gwasanaethau i bobl yn ardal Clydach yng ngorllewin Morgannwg. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe yn bractis deintyddol sefydledig a brynwyd oddi wrth y perchennog blaenorol ym mis Awst 2014 gan United Dental (Cymru) (sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel endid corfforaethol). Mae United Dental (Cymru) yn gweithredu chwe phractis deintyddol, ac mae pedwar ohonynt wedi'u lleoli yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae prif swyddfa'r cwmni wedi'i lleoli yng Nghastell-nedd, gorllewin Morgannwg.

Mae Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol i gleifion preifat a chleifion y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, chwe nyrs ddeintyddol (y mae un ohonynt hefyd yn gweithio yn y dderbynfa ac un arall sydd dan hyfforddiant), un therapydd, ac un rheolwr practis. Mae rheolwr cyffredinol hefyd yn gyfrifol am ddarpariaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac mae'n rhannu ei hamser bob wythnos rhwng y practis hwn a gwasanaethau United Dental eraill yng ngorllewin Morgannwg a de-ddwyrain Cymru.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau a chyngor
- Triniaeth ataliol a pheriodontol (y deintgig)
- Llenwadau
- Corunau
- Tynnu dannedd
- Dannedd gosod ac atgyweiriadau
- Orthodonteg

Mae Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe yn bractis hyfforddi hefyd, sy'n cynorthwyo deintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n cyflawni eu blwyddyn gyntaf ym maes deintyddiaeth (ar ôl cwblhau eu gradd prifysgol) trwy ddarparu goruchwyliaeth gan hyfforddwr neilltuedig.

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe yn bodloni'r safonau gofal yn y Safonau Iechyd a Gofal a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir yn y ganolfan ddeintyddol. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd bod y staff yn broffesiynol a chroesawgar ac yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu gofal a'u triniaeth. Mae'r ganolfan ddeintyddol yn gwahodd sylwadau ac awgrymiadau cleifion fel ffordd o wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod pwyslais ar sicrhau bod gofal a thriniaeth ddeintyddol yn cael eu cynllunio a'u darparu gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen gwella cynnwys a chysondeb agweddau cofnodi ar ymgynghoriadau cleifion a'r defnydd o offer pelydr-X.

Caiff Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe ei rhedeg yn dda gan y rheolwr practis, sy'n cael ei gefnogi o ddydd i ddydd gan reolwr cyffredinol, cyfarwyddwr clinigol, a thîm brwdfrydig sy'n llawn ysgogiad. Mae gan y practis systemau a phrosesau rheoli priodol ar waith i sicrhau diogelwch cleifion.

Canfuwyd gennym fod y ganolfan ddeintyddol yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol i ddarparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn gofal a thriniaeth. Mae mynediad i'r adeilad yn addas ar gyfer pobl â phroblemau symud.

Mae'r ganolfan ddeintyddol wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Gwelsom hefyd fod y safle'n lân a hylan drwyddi draw.

Darperir cyfleuster pwrpasol newydd sbon i'r staff lle gallant newid i'w gwisgoedd gwaith a chymryd seibiannau neilltuedig yn ystod y dydd.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir yn y ganolfan ddeintyddol. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd bod y staff yn broffesiynol a chroesawgar ac yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu gofal a'u triniaeth. Mae'r ganolfan ddeintyddol yn gwahodd sylwadau ac awgrymiadau cleifion fel ffordd o wella'r gwasanaethau a ddarperir.**

Anfonwyd holiaduron cleifion i'r ganolfan ddeintyddol cyn ein harolygiad a chwblhawyd 18 ohonynt.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda'r driniaeth yr oeddent wedi ei derbyn yn y ganolfan ddeintyddol a'u bod wedi cael eu croesawu gan y staff. Dywedodd rhai cleifion wrthym fod oediadau o dro i dro cyn iddynt gael eu gweld gan y deintydd, ond mai dim ond am tua 5–10 munud oedd hyn. Dywedodd un person ei fod yn teimlo nad oedd ymweliadau archwilio yn ddigon hir. Roedd sylwadau eraill a dderbyniwyd gan gleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Rwy'n falch iawn gyda'r practis. Mae'r staff yn wych. Cyfeillgar iawn – maen nhw'n eich gwneud yn gyfforddus.'*
>
> *'Mae'r practis hwn yn cynnig gwasanaethau rhagorol.'*
>
> *'Rwyf wedi cael profiad cadarnhaol iawn yn y practis hwn erioed, ac rwy'n fwy na bodlon gyda'r gwasanaeth a ddarperir.'*

Cawsom sgyrsiau gyda thri chlaf a oedd yn ymweld â'r practis ar ddiwrnod ein harolygiad, a chynigiwyd rhagor o sylwadau cadarnhaol ganddynt ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn a'u gallu i drefnu apwyntiadau ar amseroedd a oedd yn cyd-fynd yn dda â'u bywydau cartref a gwaith.

Pan ofynnwyd i'r cleifion am wybodaeth am driniaeth, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol wedi esbonio'r driniaeth yr oedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau cleifion am yr agwedd hon ar y gwasanaeth a ddarperir yn cynnwys y canlynol:

> *'Ydy, bob tro, hyd yn oed am archwiliadau.'*
>
> *'Hapus gyda phopeth!'*
>
> *'Mae [y deintydd] yn cynnig gwasanaeth personol da iawn yr wyf yn fodlon iawn ag ef.'*

> *'Gwasanaeth dibynadwy iawn, gyda chyngor a thriniaeth dda.'*
>
> *'Rwyf wedi derbyn triniaeth ragorol erioed ac rwy'n hynod fodlon gyda phob agwedd.'*

Dywedodd saith claf a gwblhaodd holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Fodd bynnag, roedd y rhif brys/y tu allan i oriau ar gael yn y daflen gwybodaeth i gleifion a oedd wedi'i harddangos ar safle'r ganolfan ddeintyddol, ac roedd y peiriant ateb yn rhoi gwybodaeth y tu allan i oriau i gleifion hefyd.

Mae'r ganolfan ddeintyddol yn cynnig apwyntiadau rheolaidd a brys, ac mae ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30 a.m. a 5 p.m. (8 a.m. i 6 p.m. yw'r oriau agor ar ddydd Mawrth). Mae'r gwasanaeth yn cau am awr bob diwrnod rhwng 1 p.m. a 2 p.m.

Dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau yn y ganolfan ddeintyddol ac nid oedd ganddynt unrhyw gwynion na phryderon. Fodd bynnag, dywedodd 11 o'r 18 claf a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am eu gofal neu driniaeth, pe bai'r angen yn codi. Fodd bynnag, gwelsom fod y broses/gweithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn amlwg yn y ddwy ystafell aros mewn print mân a bras i gynorthwyo cleifion i ddeall eu hawliau yn hyn o beth. Roedd y daflen gwybodaeth i gleifion hefyd yn cyfeirio at yr agwedd hon ar ddarpariaeth y gwasanaeth.

Gwelsom hysbysiad wedi'i arddangos yn y dderbynfa yn gwahodd cleifion i gynnig awgrymiadau a sylwadau ar eu profiadau yn y ganolfan ddeintyddol. Hefyd, roedd y tîm staff wrthi'n datblygu holiadur a fyddai'n cael ei ddefnyddio'n flynyddol i ofyn am safbwyntiau cleifion fel ffordd o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth cyn belled â phosibl. Dangosodd sgyrsiau gydag aelodau o'r tîm deintyddol hefyd y pwyslais a roddir ar sicrhau bod cleifion yn fodlon â'u triniaeth cyn gadael y practis yn ystod pob ymweliad.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Roeddem yn gallu cadarnhau bod pwyslais ar sicrhau bod gofal a thriniaeth ddeintyddol yn cael eu cynllunio a'u darparu gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch a lles cleifion.**

**Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen gwella cynnwys a chysondeb agweddau cofnodi ar ymgynghoriadau cleifion a'r defnydd o offer pelydr-X.**

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau hyfforddiant i aelodau staff perthnasol. Gwelsom fod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys gwybodaeth eglur a phenodol am y defnydd o offer pelydr-X. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd chwech o'r 12 o gofnodion cleifion yn cynnwys y rhesymau am gynnal archwiliadau pelydr-X deintyddol. Hefyd, nid oedd y tîm deintyddol yn cofnodi ansawdd a gradd delweddau pelydr-X deintyddol cleifion fel mater o drefn, fel sy'n ofynnol dan reoliadau RhYÏ(DM) 2000.[4]

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Hysbysir y gwasanaeth am yr angen i ddangos sut y bydd yn sicrhau bod y tîm deintyddol yn cofnodi gwybodaeth gyson a manwl am y defnydd o offer pelydr-X yn y dyfodol, yn unol â rheoliadau RhYÏ(DM) 2000.***

Gwelsom fod arwyddion ynglŷn â phresenoldeb perygl ymbelydredd yn bresennol wrth y fynedfa i bob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y ganolfan ddeintyddol.

Datgelodd trafodaethau gyda'r tîm deintyddol y pwyslais y maent yn ei roi ar gynllunio a darparu gofal a thriniaeth cleifion mewn ffordd a fwriedir i sicrhau diogelwch a lles y claf. Gwneir hyn yn rhannol trwy wneud atgyfeiriadau cleifion prydlon a phriodol at weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ôl y gofyn.

---

[4] Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, y cyfeirir atynt hefyd fel RhYÏ(DM) 2000.

Mae gan y ganolfan ddeintyddol weithdrefnau priodol ar waith i ymdrin ag achosion brys (cleifion), ac mae offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Mae archwiliadau rheolaidd priodol hefyd ar waith i sicrhau bod yr holl offer brys yn barod i'w ddefnyddio. Roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar a pherthnasol ar adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) a dadebru brys. Hefyd, roedd un o'r nyrsys deintyddol wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio cymorth cyntaf i sicrhau bod rhywun yn gweithio yn y ganolfan ddeintyddol bob amser sy'n meddu ar sgiliau o'r fath er lles cleifion a'r staff.

Canfuwyd gennym fod cyffuriau brys wedi'u storio'n ddiogel a bod archwiliadau priodol a gofnodir ar waith i sicrhau bod cyffuriau'n cael eu newid cyn eu dyddiadau terfyn.

Ystyriwyd y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau (a adnabyddir hefyd fel dadheintio), a chanfuwyd gennym fod gan y ganolfan ddeintyddol ddull wedi'i hen sefydlu a thrylwyr o ymdrin â'r agwedd hon ar ddarpariaeth y gwasanaeth.

Gwelsom fod rhaglen cynnal a chadw feunyddiol ar waith o ran yr offer a ddefnyddir i lanhau offerynnau deintyddol. Mae'r rhaglen cynnal a chadw yn cynnwys archwiliadau offer ar ddechrau a diwedd y dydd. Mae'r tîm deintyddol hefyd yn defnyddio stribedi prawf penodol (protein) bob wythnos er mwyn sicrhau bod y baddon uwchsonig[5] yn dal i fod yn effeithiol, a chofnodir y canlyniadau. Fodd bynnag, dywedodd y tîm deintyddol nad oedd y profion ffoil angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Arweiniodd trafodaeth bellach gyda'r tîm deintyddol at ddarganfod hefyd bod penderfyniad wedi cael ei wneud eisoes i gael gwared ar y baddon uwchsonig o'r safle, gyda'r bwriad o ddychwelyd i lanhau a sgwrio offerynnau deintyddol a ddefnyddiwyd â llaw cyn sterileiddio. Fe'n hysbyswyd felly y byddai'r glanhawr uwchsain yn cael ei symud o'r safle ar ddiwrnod ein harolygiad, fel y bwriadwyd.

Cynhelir archwiliadau beunyddiol i sicrhau bod y ddwy ffwrn aerglos[6] yn gweithio'n effeithiol.

---

[5] Mae **baddon uwchsonig** yn glanhau eitemau gan ddefnyddio uwchsain (rhwng 20 a 400 kHz fel rheol) a thoddydd glanhau priodol.

[6] Siambr pwysedd yw **ffwrn aerglos** a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy eu rhoi mewn ager dirlawn pwysedd uchel.

Arweiniodd sgwrs gyda nyrs ddeintyddol at ddisgrifiad llawn a boddhaol o'r broses ddadheintio sydd ar waith. Gwelsom hefyd fod ystafell ddadheintio bwrpasol ar y safle; nodwyd bod hyn yn arfer da yn unol â chanllawiau cyfredol WHTM 01-05.[7] Hefyd, canfuwyd gennym fod trefniadau priodol ar waith i gludo offerynnau deintyddol o'r ystafelloedd triniaeth i'r ystafell ddadheintio.

Gwelsom y darperir menig untro, ffedogau a sbectolau diogelwch i'r staff i'w defnyddio wrth wneud eu gwaith, er nad oedd sbectolau diogelwch yn cael eu defnyddio bob amser. Tynnwyd sylw'r uwch-reolwyr a oedd yn bresennol yn yr arolygiad at y mater diogelwch hwn, a chytunasant i atgoffa'r tîm deintyddol o'r angen i ddefnyddio'r sbectolau diogelwch a ddarperir wrth ddarparu gofal a thriniaeth i gleifion.

Mae sbectolau diogelwch ac eitemau untro ar gael i amddiffyn cleifion a'u dillad. Canfuwyd gennym fod lle storio priodol ar gyfer offerynnau deintyddol a chyfleusterau golchi dwylo penodol ym mhob ystafell driniaeth.

Gwelsom fod yr offerynnau a oedd wedi'u lapio a'u storio yn barod i'w hailddefnyddio yn cynnwys dyddiadau terfyn priodol (o un mis, yn unol â'r polisi a ddatblygwyd ac a gytunwyd yn y ganolfan ddeintyddol).

Roedd yn ymddangos bod yr holl offer mewn cyflwr da. Edrychwyd hefyd ar y cofnodion cynnal a chadw offer yn y practis a'r contract parhaus sydd ar waith i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drafod, ei storio a'i waredu yn briodol. Canfuwyd fod yr holl gofnodion o'r fath yn gyfredol ac yn ddilys. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu.

Roeddem yn gallu cadarnhau y cynhelir profion ar offer symudol yn ôl y gofyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Adolygwyd sampl fach o 12 o gofnodion deintyddol. Canfuwyd gennym nad oedd hanner y cofnodion gofal cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth am y materion canlynol:

- Trafodaethau a gynhaliwyd gyda chleifion yn ystod ymgynghoriadau – gan gynnwys hanes cymdeithasol
- Opsiynau triniaeth sydd ar gael i gleifion

[7] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn cynnig canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadhalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

- Caniatâd cleifion i driniaeth
- Canlyniad archwiliadau meinwe feddal
- Tystiolaeth bod hanesion meddygol cleifion wedi'u cydlofnodi gan ddeintydd

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Hysbysir y gwasanaeth am yr angen i ddangos sut y bydd yn sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau proffesiynol, canllawiau, a'r Safonau Iechyd a Gofal.***

Canfuwyd gennym fod y tîm deintyddol yn defnyddio templedi cyfrifiadurol i gofnodi gofal a thriniaeth cleifion a drefnir, er bod rhywfaint o dystiolaeth o orddibyniaeth ar 'awto nodiadau' (a adnabyddir hefyd fel nodiadau atgoffa electronig i ddeintyddion gwblhau gwybodaeth). Roedd hyn yn golygu nad oedd cofnodion cleifion mor unigoledig ag y gallent fod, yn unol â chanllawiau arfer da.

Cawsom sgyrsiau gydag uwch-reolwyr yn y ganolfan ddeintyddol am gofnodion cleifion yn gyffredinol, ac fe'n hysbyswyd eu bod wedi cyflwyno proses yn ddiweddar i gadw copïau o gynlluniau triniaeth cleifion yn dilyn ymgynghoriadau deintyddol cleifion er gwybodaeth yn y dyfodol. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod gan y ganolfan ddeintyddol drywydd archwilio cyflawn o'r gwasanaeth a gynigiwyd i gleifion. Cyn y trefniant hwn, dim ond cleifion oedd yn cael copi i'w gadw, er gwybodaeth.

Caiff cofnodion cleifion eu cadw a'u storio'n ddiogel yn y ganolfan ddeintyddol ar bapur ac yn electronig. Datgelodd sgwrs gyda'r rheolwr practis hefyd fod trefniadau gwasanaeth cyfrifiadurol 'oddi ar y safle' priodol ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu diogelu bob amser.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Caiff Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe ei rhedeg yn dda gan y rheolwr practis, sy'n cael ei gefnogi o ddydd i ddydd gan reolwr cyffredinol, cyfarwyddwr clinigol, a thîm brwdfrydig sy'n llawn ysgogiad. Mae gan y practis systemau a phrosesau rheoli priodol ar waith i sicrhau diogelwch cleifion.**

Mae Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe yn bractis deintyddol sefydledig a brynwyd oddi wrth y perchennog blaenorol ym mis Awst 2014 gan United Dental (Cymru) (sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel endid corfforaethol). Mae United Dental (Cymru) yn gweithredu chwe phractis deintyddol, ac mae pedwar ohonynt wedi'u lleoli yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae prif swyddfa'r cwmni wedi'i lleoli yng Nghastell-nedd, gorllewin Morgannwg.

Cyfrifoldeb rheolwr practis, a gefnogir gan reolwr cyffredinol, cyfarwyddwr clinigol, a thîm staff brwdfrydig a llawn ysgogiad, yw rheoli Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe o ddydd i ddydd. Dywedodd staff a siaradodd â ni eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu gwaith a'u bod yn gallu cael cyngor yn ôl y gofyn, gan y rheolwr practis a'r uwch dîm rheoli.

Mae Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe yn bractis hyfforddi sy'n cynorthwyo deintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n cyflawni eu blwyddyn gyntaf ym maes deintyddiaeth (ar ôl cwblhau eu gradd prifysgol) trwy ddarparu goruchwyliaeth gan hyfforddwr neilltuedig.

Dangosodd sgyrsiau gyda'r deintyddion ac aelodau eraill o'r tîm deintyddol eu bod yn cymryd rhan ymarferol yn y gwaith o redeg a rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Mae amrywiaeth o systemau a phrosesau rheoli ar waith i sicrhau y darperir triniaeth i gleifion yn ddiogel. Er enghraifft, gwelsom dystiolaeth o weithgarwch archwilio a gwblhawyd yn ymwneud ag WHTM 01-05 (canllawiau sy'n gysylltiedig â phrosesau dadhalogi), asesiad risg manwl a mesurau rheolaeth yn ymwneud â gweithrediad beunyddiol y practis, ac asesiad risg tân, ac roedd pob un ohonynt wedi cael ei gwblhau ers mis Hydref 2014. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn hyderus eu bod yn ddiogel, gan fod y busnes yn cael ei redeg yn dda gan roi sylw a gofal dyledus i safonau iechyd a gofal a rheoliadau cyfredol.

Datgelodd drafodaeth gyda'r tîm deintyddol fod trosiant staff a lefelau salwch/absenoldeb yn isel. Hefyd, nid yw'r ganolfan ddeintyddol byth yn defnyddio nyrsys asiantaeth gan fod gan United Dental (Cymru) ei drefniadau nyrsys banc mewnol ei hun. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth gan dîm deintyddol sy'n gyfarwydd iddynt.

Canfuwyd gennym fod rhaglen hyfforddiant briodol ar waith i sicrhau ymsefydliad effeithiol staff newydd. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n gywir.

Dywedodd y staff i ni siarad â nhw eu bod yn hapus yn eu swyddi yn y ganolfan ddeintyddol, a dywedasant wrthym fod y tîm cyfan yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Fe'n hysbyswyd na chynhelir cyfarfodydd staff bob mis a bod y tîm yn hytrach yn dewis cynnal cyfarfod beunyddiol cryno lle gellir trafod a datrys unrhyw faterion o bryder neu awgrymiadau am ddarpariaeth y gwasanaeth i gleifion yn brydlon cyn belled â phosibl. Roedd nodiadau o gyfarfodydd mwy ffurfiol a gynhaliwyd yn y practis yn dangos bod amrywiaeth o bynciau perthnasol wedi cael eu trafod. Roedd y rhain yn cynnwys manylion y broses ddadhalogi ac amrywiaeth o brosesau gweinyddol i gefnogi'r gofal a'r driniaeth i gleifion.

Edrychwyd ar gofnodion hyfforddiant yn ymwneud â phedwar aelod o staff, a chanfuwyd bod pob unigolyn dan sylw wedi derbyn amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi perthnasol i'w cynorthwyo gyda'u gwaith ac yn unol â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Roedd system werthuso flynyddol wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar yn y practis fel ffordd o hybu trafodaeth rhwng y tîm rheoli a'r staff ac i benderfynu ar effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarparwyd**.**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion brechiadau ac imiwnedd hepatitis B yn ffeiliau'r staff. Mae hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau priodol i ddiogelu staff a chleifion. Rhoddwyd enghraifft gadarnhaol i ni hefyd o sut y darparwyd cymorth a chyngor ymarferol i'r tîm deintyddol gan yr adran iechyd galwedigaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Gwelsom amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw yn y practis. Gallwn gadarnhau felly bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio yn unol â gofynion rheoleiddio, fel y gellir trin cleifion yn ddiogel.

Roedd tystysgrifau AGIC wedi'u harddangos ym mhob un o'r pedair ystafell driniaeth o ran y ddeintyddiaeth breifat a ddarperir yn y practis. Roedd y wybodaeth yn anghywir yn un achos. Hysbyswyd y rheolwr practis felly am y broses sydd ar waith i gael tystysgrif gyfredol ar gyfer yr ymarferwr deintyddol dan sylw.

Gwelsom fod y poster iechyd a diogelwch a arddangoswyd yn cynnwys manylion cysylltiadau priodol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel sy'n ofynnol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Canfuwyd gennym fod y ganolfan ddeintyddol yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol i ddarparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn gofal a thriniaeth. Mae mynediad i'r adeilad yn addas ar gyfer pobl â phroblemau symud.**

**Mae'r ganolfan ddeintyddol wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Gwelsom hefyd fod y safle'n lân a hylan drwyddi draw.**

**Darperir cyfleuster pwrpasol newydd sbon i'r staff lle gallant newid i'w gwisgoedd gwaith a chymryd seibiannau neilltuedig yn ystod y dydd.**

Mae Canolfan Ddeintyddol Cwmtawe yn darparu gwasanaethau o safle masnachol a droswyd wedi'i leoli ar y stryd fawr yng Nghlydach. Mae enwau a chymwysterau'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos ar arwydd y tu allan i'r adeilad.

Gwelsom y byddai'r brif fynedfa a'r drysau i'r ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear yn galluogi cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn i gael mynediad i'r adeilad a derbyn triniaeth mewn ffordd ddiogel.

Ni cheir unrhyw leoedd parcio penodedig ar safle'r practis, ond mae lleoedd parcio ar gael yn y strydoedd cyfagos.

Canfuwyd gennym fod y ganolfan ddeintyddol yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda drwyddi draw, a bod goleuo, gwres ac awyriad priodol. Ceir tair ystafell driniaeth cleifion yn yr adeilad, ac mae dau ohonynt wedi'u lleoli ar y llawr daear.

Mae'r ystafell aros ar y llawr cyntaf wedi'i dodrefnu'n gyfforddus. Mae'r ystafell aros ar y llawr daear yn rhan o'r dderbynfa ac yn agos at y ddwy ystafell driniaeth yn y rhan honno o'r adeilad. Mae'r cyfuniad o'r ddau yn cynnig digon o le i gleifion.

Canfuwyd fod y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr sydd wedi'i harddangos yn y ganolfan ddeintyddol yn gyfredol ac yn ddilys.

Ceir un toiled ar y llawr daear sydd wedi cael ei addasu ar gyfer cleifion â phroblemau symud. Roedd y cyfleuster hwn yn lân a hylan, a cheir offer golchi dwylo addas i atal croes-heintio.

Gwelsom fod gan y staff fynediad at ystafell newid/orffwys bwrpasol a chegin.

Ceir cyfeiriadau eglur i'r allanfeydd tân ac archwiliwyd y diffoddwyr tân ar y ddau lawr yn ddiweddar. Canfuwyd gennym hefyd bod gan y practis gontract offer tân dilys, ac roedd goleuadau brys ar gael.

Canfuwyd gennym fod trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a'u gwybodaeth.

Mae larwm diogelwch wedi'i osod yn y safle fel ffordd o atal mynediad heb awdurdod.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal. Mae manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Cwmtawe yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Canolfan Deintyddol Cwmtawe

## Dyddiad yr arolygiad: 13 Mai 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y claf** | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ymwneud â'r thema arolygu hon. | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| Tudalen 8 | Cynghorir y practis bod angen dangos sut y bydd yn sicrhau bod y tîm deintyddol yn cofnodi gwybodaeth gyson a manwl am ddefnyddio offer pelydr-X yn y dyfodol, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IR(ME)R), a Safonau Iechyd a Gofal 3.3 (ansawdd cofnodion clinigol), 3.5 (cadw cofnodion), a | Archwilio cofnodion<br>1) Archwiliadau cleifion, meysydd hanes cymdeithasol: rheoli cleifion/diagnosis<br>2) Cyfiawnhad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) | Chris Wills-Wood<br>(Cyfarwyddwr) | Wedi dechrau'r cylch archwilio |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 4.2 (gwybodaeth am gleifion). | | | |
| Tudalen 11 | Hysbysir y practis bod angen dangos sut y bydd yn sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyflawn, yn unol â safonau proffesiynol, canllawiau, a'r Safonau Iechyd a Gofal 3.3 (ansawdd cofnodion clinigol), 3.5 (cadw cofnodion), a 4.2 (gwybodaeth am gleifion). | Fel uchod - yn cynnwys y maes hwn (archwiliad) | Chris Wills-Wood (Cyfarwyddwr) | Mae'r archwiliad wedi dechrau |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ymwneud â'r thema arolygu hon. | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ymwneud â'r thema arolygu hon. | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Chris Wills-Wood**

**Teitl:** **Cyfarwyddwr**

**Dyddiad:** **22 Mehefin 2015**